
COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

Penderfyniad a wnaed gan:

Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Dyddiad y penderfyniad:

26 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:

26 September 2023

Penderfyniad:

GORCHYMYN (AMRYW FFYRDD) (TERFYNAU CYFLYMDER 30MYA)
CYNGOR SIR DDINBYCH 2023

Gwrthod gwrthwynebiadau i Orchymyn (Amryw Ffyrdd) (Terfynau Cyflymder 30mya) Cyngor Sir Ddinbych 2023, sef y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig sy'n cynnwys eithriadau i'r terfyn cyflymder 20 mya diodyn.

Bwriad y penderfyniad:

Y gwrthwynebiadau a gafwyd mewn cysylltiad â'r Gorchymyn Traffig arfaethedig uchod. Mae'r Gorchymyn Traffig yn cynnwys cynigion i wneud y terfyn cyflymder yn 30mya ar gyfer y ffyrdd a restrir yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Bydd y darnau hyn o ffyrdd yn Eithriadau i'r terfyn amser 20 mya diodyn sy'n dod i rym ar draws Cymru ar 17 Medi 2023.

Rhesymau dros wneud y penderfyniad:

Yn unol â Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 a Chyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych. Dim ond trwy broses Penderfyniadau Dirprwyedig Aelod Arweiniol y gellir gwrthod gwrthwynebiadau ffurfiol i Orchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig. Dim ond pan fydd y gwrthwynebiadau hynny wedi'u gwrthod y gellir gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ac y daw i rym.

Cysylltiadau a ddatganwyd:

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

Ymgynghoriad:

Ymgynghorwyd â Chynghorwyr Sir y Ward, Heddlu Gogledd Cymru a

Chynghorau Tref a Chymuned perthnasol am y Gorchymyn Traffig. Cafodd ei hysbysebu'n gyhoeddus rhwng 12 Gorffennaf 2023 a 3 Awst 2023.

Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:

Gweler y Cynllun Dirprwyo.